# Atebion a roddwyd i Aelodau ar 17 Ebrill 2008

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gyllido'r cynllun teithio rhatach cyfredol ar gyfer Pensiynwyr sy'n teithio ar Reilffordd Calon Cymru ar ôl mis Mai eleni? (WAQ51597)

**Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Ieuan Wyn Jones):** Mae gwerthusiad llawn o gynllun peilot 12 mis, a ddechreuodd ddydd Sul 20 Mai 2007, yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Ni wneir unrhyw benderfyniad i ymestyn neu barhau â'r cynllun hwn hyd nes y ceir canlyniad y gwerthusiad o'r cynllun peilot, yr wyf yn disgwyl ei gael yn fuan.

**Nick Ramsay (Mynwy):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu faint o geisiadau a fethodd gael cyllid yn Ne Ddwyrain Cymru ar ôl i gynllun y Gronfa Datblygu Gwybodaeth ddod i ben? (WAQ51610)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Mae'r Gronfa Datblygu Gwybodaeth yn parhau i weithredu hyd at fis Medi 2008, pan ddaw ei gwasanaethau o dan nawdd y fenter 'Academia 4 Business'. O ganlyniad, ni fu achosion lle mae ymgeiswyr i'r Gronfa Datblygu Gwybodaeth wedi bod yn aflwyddiannus oherwydd y newidiadau arfaethedig.

**Nick Ramsay (Mynwy):** A fyddai'r Gweinidog yn amlinellu pwy oedd yn gyfrifol am oruchwylio'r Gronfa Datblygu Gwybodaeth? (WAQ51611)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Erys y cyfrifoldeb am oruchwylio'r Gronfa Datblygu Gwybodaeth gyda swyddogion o fewn Tîm Technoleg ac Arloesedd Adran yr Economi a Thrafnidiaeth.

**Nick Ramsay (Mynwy):** A fyddai'r Gweinidog yn amlinellu beth oedd y meini prawf ar gyfer cyllido'r Gronfa Datblygu Gwybodaeth? (WAQ51612)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Mae'r meini prawf ar gyfer ariannu'r Gronfa Datblygu Gwybodaeth a phrosiectau cydgyfeirio yn y dyfodol yn seiliedig ar nifer o gysylltiadau strategol â pholisïau ehangach Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan gynnwys Cymru: Economi yn Ffynnu a'r Polisi Gwyddoniaeth, effaith economaidd, hyfywedd prosiect a gwerth am arian.

**Nick Ramsay (Mynwy):** A fyddai'r Gweinidog yn amlinellu sut y cafodd y Gronfa Datblygu Gwybodaeth ei chyllido? (WAQ51615)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Ariannwyd y Gronfa Datblygu Gwybodaeth gan geisiadau llwyddiannus Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd ac arian uniongyrchol Llywodraeth Cynulliad Cymru o dan Ffordd i Ffyniant, ac mae'n parhau i gael ei hariannu felly. Caiff y prosiect cydgyfeirio 'Academia 4 Business' a fydd yn disodli KEF ym mis Medi 2008, ei ariannu yn yr un modd.

**Nick Ramsay (Mynwy):** Pa asesiad y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i wneud o effaith y Gronfa Datblygu Gwybodaeth ar yr economi? (WAQ51616)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Daeth gwerthusiad annibynnol o KEF, a gwblhawyd ym mis Tachwedd 2007 gan PACEC, i'r casgliad bod nodau KEF yn adlewyrchu fframwaith strategol a pholisi ar gyfer Cymru i greu economi sy'n ffynnu. Mae KEF yn gwneud cyfraniad i'r economi drwy gryfhau'r diwylliant fenter/arloesi, gan gynorthwyo i ddatblygu cyflogaeth ac incwm yng Nghymru."

**Nick Ramsay (Mynwy):** Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch y Gronfa Datblygu Gwybodaeth? (WAQ51617)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Rwy'n parhau i gael fy hysbysu am lwyddiant y Gronfa Datblygu Gwybodaeth gan swyddogion Adran yr Economi a Thrafnidiaeth. Rwyf wedi cael fy hysbysu am brosiectau mawr a ariennir gan KEF gan gynnwys Canolfan Ymchwil Tyrbin Nwy Port Talbot ac rwy'n monitro'r broses o drosglwyddo gwasanaethau'r rhaglen i'r fenter "Academia 4 Business" yn agos.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Ers ei lansio, a) sawl gwaith ydych chi wedi defnyddio'r gwasanaeth awyr rhwng Caerdydd ac Ynys Môn; a b) faint o staff eich adran sydd wedi'i ddefnyddio? (WAQ51604)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart):** Nid wyf wedi defnyddio'r gwasanaeth eto. Rwyf wedi gofyn i bennaeth yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i roi ymateb ar wahân mewn perthynas â'r staff yn ei hadran.